**Cyfarfod Cyngor Adnewyddu'r Economi**

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd am 10:30am ddydd Llun 5 Hydref, Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.

**Gweinidogion a oedd yn bresennol**
Y Prif Weinidog
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (Eitemau 3 a 4 ar yr agenda)
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg (Eitem 5 ar yr agenda hyd y diwedd)

**Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol**
Commerce Cymru – Paul Byard
Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr – Ifan Glyn
Y Ffederasiwn Busnesau Bach – Rachel Bowen
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr – Martin Warren
Sefydliad y Cyfarwyddwyr – Robert Lloyd Griffiths
Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig – David Morgan
Siambr Fasnach De Cymru – Keith Palmer
Cymdeithas y Cyfreithwyr – Lowri Morgan
Canolfan Cydweithredol Cymru – Derek Walker
TUC Cymru – Martin Mansfield
TUC Cymru – Nick Ireland
Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru – Nigel Keane

**Ymddiheuriadau**
Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig – Ben Cottam
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Emma Watkins
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain – Leighton Jenkins
Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi – Julie-Ann Haines
Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau – Ian Gallagher
Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi – Mark Harris
TUC Cymru – Alex Bevan

**Cynghorwyr arbennig a swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Derek Jones, Yr Ysgrifennydd Parhaol | James Price |
| Andrew Bold | Tracey Burke |
| Margaret Davies – Eitem 3 ar yr agenda | Mick McGuire |
| Lisa Thomas-Lewis – Eitem 4 ar yr agenda | Huw Morris |
| Chris Jones – Eitem 5 ar yr agenda hyd y diwedd | Jonathan Price |
| Melanie Kinsey – Cofnodwr | Jamie Owen – Cofnodwr |

**2. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol**

1.1 Agorodd y Prif Weinidog y cyfarfod drwy groesawu'r aelodau a nododd y prif eitemau ar yr agenda.

1.2 Roedd sawl papur i'w nodi, ac maent wedi'u rhestru yn adran 7.

1.3 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai'r Gweinidog Cyllid yn bresennol ar gyfer eitemau 3 a 4 ar yr agenda, ynghylch effeithiau cyllidebau Llywodraeth y DU ac ynghylch rôl caffael o safbwynt mynd i'r afael ag anfantais economaidd. Byddai'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn bresennol ar gyfer eitem 5 ynghylch cyflogadwyedd a darparu sgiliau lefel 2.

1.4 Nododd y Prif Weinidog ymddiheuriadau gan aelodau, a chroesawodd Rachel Bowen fel cynrychiolydd y Ffederasiwn Busnesau Bach yn lle Iestyn Davies.

**2. Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2015**

2.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd gan unrhyw un sylwadau ar y nodiadau ac a oedd unrhyw faterion yn codi ynghylch cywirdeb y nodiadau – ni wnaed unrhyw sylwadau ac ni chodwyd unrhyw faterion.

2.2 Cytunwyd bod y nodiadau'n gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

2.3 Nododd y Prif Weinidog gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

2.3.1 Nododd y Prif Weinidog fod y Gweithgor Gweithredol wedi ystyried Diwygio Lles fel eitem agenda. Mae hwn yn bapur i'w nodi ar yr agenda ar gyfer heddiw.

2.3.2 Nododd y Prif Weinidog gam gweithredu ynghylch llunio rhagor o bapurau ar gaffael o safbwynt trefniadau cyflwyno cynigion ar y cyd a phwerau newydd, a dywedodd y byddai'r eitemau hynny'n cael sylw yn eitem 4a ar yr agenda.

2.3.3 Cyfeiriodd y Prif Weinidog at gam gweithredu parhaus ynghylch darparu gwybodaeth am brosiectau llwyddiannus, a gododd yn ystod trafodaeth am drechu tlodi. Cadarnhaodd fod y Gweithgor Gweithredol wedi bod yn trafod yr agenda ynghylch tlodi a bod gwybodaeth bellach yn cael ei chrynhoi ar gyfer y grŵp.

2.4 Yn ogystal, nododd y Prif Weinidog dri cham gweithredu nad oeddent wedi'u cwblhau o gyfarfodydd blaenorol:

2.4.1 Cadarnhaodd fod Jonathan Price wedi cyfarfod ag Iestyn Davies i drafod dangosyddion is-ranbarthol, a chytunwyd bod lle i wella ymdriniaeth ond y byddai angen cyflwyno achos cryf.

2.4.2 Yr ail gam gweithredu oedd cael trafodaeth bellach ynghylch caffael. Mae hynny wedi digwydd ac mae hefyd yn eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn.

2.4.3 Y cam gweithredu olaf oedd cael diweddariad ynghylch diwygio lles, sy'n bapur i'w nodi yn y cyfarfod hwn.

2.5 Gofynnodd y Prif Weinidog am sylwadau pellach ynghylch y camau gweithredu – ni nodwyd unrhyw sylwadau pellach.

## 3. Effeithiau cyllidebau'r DU

3.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur ynghylch effeithiau posibl cyllidebau Llywodraeth y DU a'r adolygiad cynhwysfawr o wariant ar Lywodraeth Cymru ac economi Cymru, gan nodi mai'r Gweithgor Gweithredol oedd wedi gofyn am yr eitem hon. Nododd y Prif Weinidog fod toriadau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen wedi'u gwneud i gyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Er hynny, roedd y gwasanaethau pwysicaf i bobl yng Nghymru wedi'u blaenoriaethu a'u gwarchod.

3.2 Roedd yn cydnabod bod Partneriaid Cymdeithasol yn ymwybodol o'r toriadau diweddar i gyllidebau a'u bod yn pryderu am yr effaith y gallai'r toriadau ei chael ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Cadarnhaodd fod y papur wedi'i ddosbarthu o flaen llaw i'r aelodau er mwyn rhoi cyfle iddynt ystyried ei gynnwys. Nododd fod y papur yn ymdrin â chyllideb Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2015-16.

3.3 Aeth y Prif Weinidog yn ei flaen i gyflwyno'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, a gyflwynodd y papur.

3.4 Diolchodd y Gweinidog i'r Cyngor am y gwahoddiad i drafod effeithiau cyllidebau diweddar Llywodraeth y DU a'r adolygiad o wariant ar Lywodraeth Cymru.

3.5 Nododd y Gweinidog mai yng nghyd-destun pennu cynigion y gyllideb ar gyfer 2015-16, sef y flwyddyn olaf yr oedd gan Lywodraeth Cymru setliad ariannol cadarn ar ei chyfer, y cafodd materion ynghylch y gyllideb eu trafod ddiwethaf â'r Cyngor.

3.6 Er bod llawer o ansicrwydd yn parhau, nododd y Gweinidog fod rhagor o fanylion ar gael ynghylch maint y toriadau i wariant cyhoeddus yn y dyfodol. Cyfeiriodd y Gweinidog at gyllideb haf Llywodraeth y DU, a gadarnhaodd fwriad Llywodraeth y DU i ddod o hyd i werth £37 biliwn o doriadau yng ngwariant y Llywodraeth dros gyfnod yr adolygiad nesaf o wariant. Soniodd y Gweinidog fod y toriadau hyn yn ychwanegol at y toriadau o £46 miliwn yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru.

3.7 Nododd y Gweinidog y byddai'r adolygiad o wariant yn cael ei gyhoeddi ar 25 Tachwedd ac y byddai'n darparu manylion ychwanegol ynghylch y toriadau i gyllidebau adrannol.

3.8 Nododd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru, fel Llywodraeth sydd o blaid byd busnes, wedi galw ar i gyllideb haf Llywodraeth y DU fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn rhoi hwb i'r economi, a chafodd yr alwad honno ei chefnogi gan fyd busnes yng Nghymru.

3.9 Pwysleisiodd y Gweinidog y pwys yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar sicrhau bod cyllidebau cyfalaf yn cael eu gwarchod gymaint ag sy'n bosibl yn wyneb cyllidebau sy'n crebachu. Roedd hynny wedi'i adlewyrchu yn y dull gweithredu sy'n ymwneud ag 'ysgogiad economaidd', gan gynnwys yr hwb o

dros £46 miliwn a gafwyd yn ddiweddar ar ffurf buddsoddiad o ran cyfalaf, a gyhoeddwyd ym mis Medi.

3.10 Nododd y Gweinidog fod y papur yn dangos yr ystod o ffactorau a fyddai'n dylanwadu ar setliad Cymru. Dywedodd ei bod yn debygol, ar sail yr amcanestyniadau diweddaraf, y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ariannu arbedion refeniw pellach ar lefel a fyddai'n gyfwerth â'r arbedion a wynebwyd yn ystod 2010-2015, sef cyfnod yr adolygiad o wariant.

3.11 Nododd y Gweinidog ei bod, er mwyn sicrhau eglurder i bartneriaid a sicrhau digon o amser i graffu'n ystyrlon, yn bwriadu cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2016-17 ar 8 Rhagfyr 2015. Y canlyniad a oedd yn dod i'r amlwg oedd na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau a rhaglenni a ddarperir ar hyn o bryd, ar yr un sail a'r un raddfa.

3.12 Nododd y Gweinidog na fyddai Llywodraeth Cymru, yn wyneb y toriadau i'w chyllideb, yn gallu ymateb i'r holl bwysau. Felly, roedd angen i'r sector cyhoeddus ystyried beth y gellid ei wneud yn wahanol er mwyn cyflawni blaenoriaethau dros y tymor byr i'r tymor canolig. Nododd fod hon yn un o themâu cyson Taith y Gyllideb a gyflawnir ganddi'n flynyddol, lle'r oedd wedi cyfarfod â darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth rheng flaen ar draws pob sector ym mhob cwr o Gymru.

3.13 Gwahoddodd y Gweinidog farn ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru ymdopi â heriau cyllidebol yn y dyfodol.

3.14 Soniodd Martin Mansfield fod Cymru wedi bod yn y sefyllfa hon ers nifer o flynyddoedd, lle'r oedd Llywodraeth y DU wedi bod yn gwneud toriadau diangen sydd yna'n treiddio i gyllidebau Llywodraeth Cymru. Rhoddodd sicrwydd i'r Cyngor y byddai TUC Cymru yn parhau i ymgyrchu yn erbyn y toriadau hyn ac yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i leihau eu heffaith. Roedd yn croesawu'r gweithgareddau yr oedd Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â nhw i leihau effeithiau'r toriadau.

3.15 Soniodd y Prif Weinidog ei fod yn pryderu am y toriadau i gyllidebau ar gyfer meysydd na chânt eu gwarchod, megis Llywodraeth Leol a Chyfiawnder, ac effaith bosibl y toriadau hynny ar yr amgylchedd busnes yng Nghymru.

3.16 Soniodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y byddai'n ddefnyddiol cael barn byd busnes am flaenoriaethau. Soniodd fod seilwaith cryf a sylfaen gref o sgiliau'n hanfodol i sicrhau twf economaidd. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio pecynnau ariannu arloesol i hybu buddsoddi yn y meysydd hyn a'i bod yn ystyried cyfleoedd ehangach i fuddsoddi, megis y Gronfa Buddsoddi Strategol Ewropeaidd.

3.17 Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai'n ysgrifennu at y Canghellor cyn yr adolygiad o wariant ac y byddai'n croesawu barn byd busnes cyn gwneud hynny. Nododd y Gweinidog y byddai meysydd na chânt eu gwarchod yn Lloegr yn wynebu cael llai o arian, oherwydd maint y toriadau i gyllidebau, ond ei bod yn

bosibl hefyd y byddai'r effeithiau i'w gweld mewn rhai meysydd sy'n cael eu gwarchod yn Lloegr, megis iechyd.

3.18 Gofynnodd David Morgan am statws ymrwymiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'r gwaith o drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Abertawe a Llundain a rheilffyrdd y Cymoedd.

3.19 Ymatebodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth drwy nodi bod trafodaethau wedi'u cynnal â Network Rail ynghylch y mater hwn, yn ogystal â llinell Metro'r Cymoedd. Nododd y Gweinidog fod adroddiad yn cael ei lunio ynghylch y mater. Roedd y Gweinidog yn dal yn hyderus y byddai'r ddau brosiect yn mynd yn eu blaen, er y gallai rhywfaint o oedi ddigwydd.

3.20 Nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i'r ddau brosiect. Nododd hefyd ei fod yn disgwyl i Lywodraeth y DU weithredu fel y bwriadwyd, gan fod Prif Weinidog y DU wedi ymrwymo'n gyhoeddus i drydaneiddio'r rheilffyrdd.

3.21 Gofynnodd Martin Warren a oedd cynlluniau ar y gweill i gynorthwyo awdurdodau lleol i symud rhagor o ddarpariaeth anstatudol i'r trydydd sector, yn wyneb y pwysau sydd ar gyllidebau llywodraeth leol.

3.22 Ymatebodd y Prif Weinidog gan ddweud bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai gwasanaethau lleol yn parhau i gael eu rhedeg gan lywodraeth leol, ac mai dim ond os bydd popeth arall wedi methu y dylai awdurdodau lleol ystyried symud gwasanaethau i sefydliadau dielw. Pe bai hynny'n digwydd, dywedodd y Prif Weinidog na ddylai effeithio ar ansawdd gwasanaethau ac y byddai'n disgwyl i delerau ac amodau'r gweithwyr gael eu trosglwyddo mewn modd teg a chyfiawn.

3.23 Cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau gweithredol i gefnogi achosion o drosglwyddo asedau cymunedol, a chyfeiriodd at waith a wnaed gyda Chanolfan Cydweithredol Cymru ynghylch y mater hwn. Soniodd fod hynny'n cynnwys ystyried ystod o wasanaethau, ac nid llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn unig.

3.24 Gofynnodd Robert Lloyd Griffiths a oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o safbwynt uno awdurdodau lleol, ac a allai hynny gynnig cyfle i sicrhau arbedion mewn cyllidebau dros y blynyddoedd nesaf.

3.25 Ymatebodd y Prif Weinidog gan ddweud bod map drafft wedi'i gyhoeddi ond na fyddai'n bosibl gwneud cynnydd pellach cyn etholiad nesaf y Cynulliad. Nododd y Prif Weinidog ei fod wedi ymrwymo o hyd i leihau nifer yr awdurdodau lleol.

3.26 Soniodd Rachel Bowen am bwysigrwydd sgiliau a seilwaith, a nododd fod angen i ni sicrhau bod y rhaglenni a'r systemau cefnogi cywir ar waith i ddarparu'r rhain a sicrhau bod busnesau'n gallu elwa ar fuddsoddiadau yn y meysydd hyn.

3.27 Nododd y Prif Weinidog mai'r ddau fater a godir yn gyson yn ystod teithiau masnach a mewnfuddsoddi yw sgiliau ac aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd.

Nododd fod yn rhaid i Gymru gael ei hystyried yn lleoliad sydd â'r sgiliau y mae eu hangen ar fewnfuddsoddwyr.

## 4 Rôl caffael o safbwynt mynd i'r afael ag anfantais

4.1 Agorodd y Prif Weinidog yr eitem hon gan nodi y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor y byddai'r Gweithgor Gweithredol yn canolbwyntio'n fwy penodol ar gaffael. Nododd, o ganlyniad i'r trafodaethau hynny yn y Gweithgor, fod dau bapur wedi'u cyflwyno i'r Cyngor i'w trafod.

4.2 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur cyntaf fel eitem 4a ar yr agenda – Caffael Cyhoeddus – Dynodi a Chynigion ar y Cyd. Nododd fod hwn yn un o bapurau Llywodraeth Cymru ac y byddai'n cael ei arwain gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth.

4.3 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr ail bapur fel eitem 4b ar yr agenda, ynghylch rôl contractau neilltuedig o safbwynt mynd i'r afael ag anfantais economaidd. Nododd fod hwn yn bapur gan TUC Cymru ac y byddai Martin Mansfield yn ei gyflwyno.

4.4 Nododd y Prif Weinidog fod cysylltiad agos rhwng y ddau bapur, a bod y ddau'n ystyried sut y gall caffael yn y sector cyhoeddus helpu i fynd i'r afael ag anfantais economaidd. Awgrymodd y dylai'r papurau gael eu trafod ar wahân ac y dylai unrhyw linynnau cyffredin gael eu dwyn ynghyd ar ddiwedd yr eitem.

4.5 Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth gyflwyno'r papur cyntaf.

4.6 Nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth fod caffael yn ysgogiad pwysig o safbwynt hybu llawer o amcanion Llywodraeth Cymru, a'i bod yn falch o gael ei gwahodd yn ôl ar gyfer trafodaeth bellach ynghylch sut y gall caffael helpu i sicrhau cynifer o fanteision ag sy'n bosibl yng Nghymru.

4.7 Nododd y Gweinidog fod y gorchymyn dynodi wedi dod i rym ar 13 Awst 2015, a bod hynny'n darparu cyfleoedd newydd ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau newydd i wneud lles i'r economi, ei gwneud yn haws i gyflenwyr bach a chwmnïau yn y trydydd sector gyflawni busnes gyda ni, a hybu manteision i'r gymuned.

4.8 Nododd y Gweinidog y byddai'r dynodiad yn hollbwysig o safbwynt cryfhau Datganiad Polisi Caffael Cymru, ac y byddai'n rhoi'r gallu i reoleiddio ynghylch materion yn ymwneud â chaffael a datblygu is-ddeddfwriaeth.

4.9 Nododd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai'r pwerau newydd hyn hybu'r gwaith o ddarparu polisïau er mwyn safoni prosesau ymhellach, sicrhau bod contractau'n fwy hygyrch, sicrhau bod manteision i'r gymuned yn cael eu gwireddu ymhellach, a darparu sail reoleiddiol ar gyfer canllawiau ynghylch materion pwysig sy'n ymwneud â moeseg a chyflogaeth.

4.10 Nododd y Gweinidog ei bod yn awyddus i ddefnyddio'r dynodiad i fanteisio ar y cyfleoedd sydd yng nghyfarwyddebau newydd yr Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cyfleoedd i neilltuo contractau.

4.11 Nododd y Gweinidog ei bod yn bwysig bod Cymru yn awr yn gyfartal â gweinyddiaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon, y mae gan y ddwy ohonynt gymhwysedd deddfwriaethol penodol ynghylch caffael cyhoeddus.

4.12 Cadarnhaodd y Gweinidog fod dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chaffael yn cefnogi'r egwyddorion y mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn seiliedig arnynt. Nododd y bydd yn rhoi datganiad ynghylch cynnydd ym mis Rhagfyr, gyda'r bwriad o sicrhau bod y rheoliad caffael cyntaf yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno yn ystod 2016.

4.13 Yna, symudodd y Gweinidog ymlaen at ddatganiad ynghylch rôl cynigion ar y cyd.

4.14 Roedd y Gweinidog yn cydnabod bod cynigion ar y cyd a chynigion cydweithredol yn gallu bod yn amhrisiadwy o safbwynt galluogi cwmnïau llai o faint a chwmnïau yn y trydydd sector i fod yn rhan o farchnad y sector cyhoeddus, a bod cynigion o'r fath yn golygu bod contractau mwy o faint, a fyddai wedi bod y tu hwnt i gyrraedd y cwmnïau hynny'n draddodiadol, bellach yn gyraeddadwy.

4.15 Nododd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i sicrhau bod sefydliadau yn y trydydd sector yn gallu cael mynediad i gyfleoedd sy'n ymwneud â chontractau. Roedd yn falch o effaith gadarnhaol y Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd (2013) ac roedd yn falch o weld consortia o gyflenwyr lleol bach yn ennill lle ar gontractau mawr.

4.16 Er y byddai diweddariad llawn yn cael ei roi ar 19 Tachwedd ynghylch y cynllun peilot ar gyfer cyflwyno cynigion ar y cyd, nododd y Gweinidog fod y papur yn tynnu sylw at rai o'r enghreifftiau ardderchog a gyflawnwyd hyd yn hyn, a oedd yn cynnwys:

- Allied Construction Consortium, sef pedwar contractwr bach, yn ennill lle ar fframwaith atgyweirio tai Cyngor Caerffili, sy'n werth £21 miliwn
- Dau gyflenwr tanwydd rhanbarthol yn cael eu penodi i fframwaith cyflenwi tanwydd hylif y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, sy'n werth £125 miliwn
- Tendr consortiwm yn ennill Contract Rhaglen Cyflymu Twf Llywodraeth Cymru, sy'n werth £16 miliwn.

4.17 Nododd y Gweinidog y byddai'n canolbwyntio yn awr ar sicrhau bod y sector cyhoeddus yn ymgorffori'r Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd fel adnodd caffael. Darperir diweddariad llawn ym mis Tachwedd ynghylch canlyniadau'r cynllun peilot a'r gwersi a ddysgwyd.

4.18 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Gweinidog a chyflwynodd yr eitem nesaf ar yr agenda, sef eitem 4b – Rôl contractau neilltuedig o safbwynt mynd i'r afael ag anfantais economaidd. Dywedodd wrth yr aelodau fod yr eitem yn ymdrin â

phapur gan TUC Cymru ("*Swyddi Gwell yn nes at Adref*") a oedd yn trafod y cyfleoedd a oedd yn codi o'r pwerau caffael newydd sy'n ymwneud â chontractau neilltuedig.

4.19 Nododd y Prif Weinidog fod y Gweithgor Gweithredol wedi trafod hyn yn fras a bod y Gweithgor yn fodlon i TUC Cymru gyflwyno ei bapur gerbron y cyfarfod hwn o'r Cyngor. Nododd hefyd ei fod yn ymwybodol bod cyfarfod wedi'i gynnal yn ddiweddar rhwng TUC Cymru a'r Gweinidog Cyllid i drafod y mater hwn.

4.20 Gofynnodd y Prif Weinidog i Martin Mansfield gyflwyno'r papur ac egluro'r cynnig i'r aelodau.

4.21 Nododd Martin Mansfield mai Cymoedd y de-ddwyrain oedd wedi cael eu taro waethaf gan y dirwasgiad diweddaraf, ac nad oedd yr ardal wedi dod dros ddirwasgiad yr 1980au. Nododd fod un rhan o bump o boblogaeth Cymru yn byw yng Nghymoedd y de-ddwyrain, a oedd yn cynnwys rhai o'r enghreifftiau gwaethaf o anfantais economaidd a chymunedau difreintiedig a geir yng Nghymru.

4.22 Honnodd na fyddai Cymru yn llwyddo oni bai bod y Cymoedd yn llwyddo. Mae angen i Gymru gael ardal lewyrchus yn y Cymoedd i sicrhau cynhyrchiant a thwf, ac mae hynny'n gofyn am strategaeth ddiwydiannol ac economaidd sy'n canolbwyntio ar ardaloedd o amddifadedd.

4.23 Nododd Martin Mansfield y gall Llywodraeth Cymru, gyda'r pwerau newydd sydd ar gael i ni, weithredu'n awr i osod dwy ganolfan gyflogaeth yn ardal Blaenau'r Cymoedd, ar ffurf cynllun peilot. Byddai hynny'n dod ag ystod o raglenni, gan gynnwys rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd i ddarparu gwaith go iawn sydd o safon foddhaol yng nghanol cymunedau. Soniodd ei fod yn gwrthod derbyn nad oedd dim sgiliau i'w cael yn y cymunedau hyn; mae busnesau eisoes yn gwneud yn dda yno. Fodd bynnag, mae llawer o bobl wedi'u datgysylltu ac mae angen help arnynt i ddod o hyd i waith yn nes at adref.

4.24 Nododd fod methiant o ran y farchnad wedi digwydd yn ardaloedd y Cymoedd. Tybir y dylai pobl deithio i weithio yng Nghaerdydd neu Gasnewydd. Er bod angen seilwaith cryf o ran trafnidiaeth, awgrymodd fod y methiant hwn o ran y farchnad yn golygu bod angen cymorth gan Lywodraeth Cymru i ddenu cwmnïau i fuddsoddi yn ardal Cymoedd y de-ddwyrain.

4.25 Cyfeiriodd Martin Mansfield at y BBC sydd wedi symud i ffwrdd o ganol Llundain yn Lloegr, ond mae BBC Cymru Wales yn symud yn nes at ganol Caerdydd.

4.26 Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle ers mis Awst i weithredu'n uniongyrchol, a bod TUC Cymru yn awyddus i weithio gyda phartneriaid cymdeithasol a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y prosiect peilot hwn yn gweithio.

4.27 Diolchodd y Prif Weinidog i Martin Mansfield ac agorodd y drafodaeth er mwyn cynnwys yr aelodau.

4.28 Diolchodd Derek Walker i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y wybodaeth am brosiectau llwyddiannus, a nododd ei bod yn braf gweld bod llwyddiannau o bwys i'w nodi. Cyfeiriodd at bwynt 29 ym mhapur y Gweinidog, gan ailadrodd y pwynt bod Canolfan Cydweithredol Cymru yn gweithio ar y cyd â Busnes Cymru i hyrwyddo gwasanaethau a chynorthwyo busnesau i fabwysiadu'r dull o gaffael ar y cyd.

4.29 Croesawodd y cynigion ynghylch pwerau caffael newydd, a nododd y gallai nifer o feysydd fod yn fanteisiol o safbwynt cloi cyfoeth lleol mewn cymunedau lleol a galluogi busnesau lleol i gystadlu'n deg â chwmnïau rhyngwladol.

4.30 Croesawodd gynigion TUC Cymru a chadarnhaodd fod Canolfan Cydweithredol Cymru yn barod i gefnogi'r fenter hon.

4.31 Nododd Rachel Bowen fod y Ffederasiwn Busnesau Bach yn cefnogi llawer o gynnwys y papur. Holodd ynghylch y modd yr oedd cwmnïau'n cael darpariaeth gan gyflenwyr allanol (er enghraifft data, personél neu TGCh) gan ei bod o'r farn bod y rhain yn ddulliau o gaffael, a gofynnodd sut y gallai hynny fod yn rhan o unrhyw bolisi manteision i'r gymuned.

4.32 Diolchodd y Prif Weinidog i TUC Cymru am gyflwyno'r papur i'r Cyngor.

4.33 Nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth sylwadau Derek Walker, a soniodd fod Canolfan Cydweithredol Cymru wedi ymwneud â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wrth ddatblygu'r Canllaw ar Gyflwyno Cynnig ar y Cyd. Soniodd fod y gwaith gyda Busnes Cymru yn gam da ymlaen, a bod cyfle i weithio gyda Busnes Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu mentrau newydd a chynorthwyo microfusnesau.

4.34 Cyfeiriodd y Gweinidog at sylwadau Martin Mansfield ynghylch papur y TUC, a soniodd am gyfleoedd a oedd ar gael i ymgyrch y TUC o ganlyniad i'r diffiniad ehangach o anfanteision yng Nghyfarwyddeb newydd yr Undeb Ewropeaidd. Bydd hynny'n caniatáu cymorth i grwpiau y byddai Llywodraeth Cymru am eu targedu, gan gynnwys grwpiau sy'n rhan o'r gweithlu ansymudol. Cadarnhaodd ei bod wedi cyfarfod â TUC Cymru ac y byddai'n sefydlu Grŵp Gorchwyl i ystyried ei gynigion.

| |
|---|
| Gweithredu: Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y byddai'n sefydlu grŵp gorchwyl a fyddai'n cynnwys partïon â diddordeb er mwyn trafod cynigion TUC Cymru a rhoi cyngor i Weinidogion. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. |

4.35 Nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth fod Rachel Brown wedi gwneud pwynt pwysig ynghylch cael darpariaeth gan gyflenwyr allanol, a'i fod yn gyfraniad defnyddiol i'r drafodaeth, yn enwedig yn wyneb y penderfyniadau anodd y bydd angen i awdurdodau lleol eu gwneud.

4.36 Roedd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o'r farn y gellid rhoi cyngor ychwanegol ynghylch caffael a chael darpariaeth gan gyflenwyr allanol. Honnodd nad yw awdurdodau lleol yn hollol ymwybodol yn aml o'r

costau sy'n gysylltiedig â chael darpariaeth gan gyflenwyr allanol, a bod angen i Lywodraeth Cymru dynnu sylw at ystyriaethau'n ymwneud â gwerth am arian wrth benderfynu cael darpariaeth gan gyflenwr allanol ai peidio.

4.37 Nododd Martin Warren fod angen i reolwyr caffael, wrth asesu gwerth am arian, ystyried ffactorau eraill ar wahân i gost ariannol. Nododd fod newid cyflenwr yn cael ei ystyried yn aml yn risg, a bod angen cymorth ar reolwyr caffael yn y sector cyhoeddus i wneud y penderfyniadau cywir.

4.38 Roedd y Prif Weinidog yn cytuno, a nododd nad y contract rhataf yw'r un gorau bob amser. Honnodd fod tendro cystadleuol gorfodol yn dal i ddylanwadu ar y modd y mae rhai awdurdodau lleol yn caffael.

4.39 Nododd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth fod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyllid Ewropeaidd i ddarparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ym maes caffael, a bod rhai awdurdodau wedi cymryd gwasanaethau'n ôl i'w darparu'n fewnol ar ôl darganfod nad oedd cael darpariaeth gan gyflenwyr allanol yn cynnig gwerth am arian.

4.40 Roedd Nick Ireland yn cytuno na ddylid bwrw ati bob amser i gaffael ar sail y contract rhataf. Cyfeiriodd at bapur y TUC a nododd, pe bai'r cynllun peilot yn llwyddiannus, y dylai fod yn rhan o ddull strategol hirdymor o weithredu a fyddai'n darparu sgiliau i fyd busnes, cyflog boddhaol i bobl, a mynediad i waith yn lleol.

4.41 Gofynnodd David Morgan a fyddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn chwarae rhan mor flaenllaw ag sy'n bosibl mewn prosiectau seilwaith mawr a sicrhau bod Cymru yn cael ei chyfran deg, er enghraifft dur o Tata. Gofynnodd a fyddai cyfleoedd i gael mynediad uniongyrchol i brosesau caffael a mynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau yn y dyfodol.

4.42 Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod cwmnïau posibl ar gyfer y gadwyn gyflenwi'n ymwybodol o'r contractau hyn ac o'r sgiliau y mae eu hangen er mwyn caffael. Cyfeiriodd at ddigwyddiadau a gynhaliwyd yng nghyswllt prosiectau rheilffyrdd, a oedd wedi dod â busnesau a chadwynau cyflenwi allweddol ynghyd, a nododd y byddai'r dull hwn o weithredu'n cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer gorsaf bŵer niwclear Wylfa B a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni'r llanw. Soniodd y Gweinidog fod diwydiant yn gwerthfawrogi'r dull gweithredu hwn a oedd yn canolbwyntio ar sgiliau anuniongyrchol ar gyfer swyddi'n ogystal â sgiliau uniongyrchol, megis sgiliau arlwyo.

4.43 Nododd y Prif Weinidog y byddai'n ddefnyddiol cael papur byr ynghylch y gwaith hwn yn y cyfarfod nesaf.

| |
|---|
| Gweithredu: Paratoi papur byr erbyn y cyfarfod nesaf ar waith a wneir gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cwmnïau'n ymwybodol o'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau mawr ac i sicrhau bod ganddynt y sgiliau i elwa arnynt. |

4.44 Diolchodd Martin Mansfield i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am ei hymateb cadarnhaol, a chadarnhaodd ei fod yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y fenter hon.

**5 Cyflogadwyedd a darparu sgiliau lefel 2**

5.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog y papur ynghylch cyflogadwyedd a darparu sgiliau lefel 2.

5.2 Nododd y Prif Weinidog fod y prif feysydd a oedd i'w trafod yn ymwneud â sut y gallai'r Cyngor sicrhau bod gan bobl yr addysg a'r sgiliau cywir y mae arnynt eu hangen i ddod yn rhan o'r farchnad lafur. Nododd fod y papur yn egluro datblygiadau presennol ynghylch gwella cyflogadwyedd ac asesu unigolion a llwybrau posibl i gyflogaeth.

5.3 Nododd y Prif Weinidog fod cysylltiadau cryf rhwng y gwaith hwn a gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru i drechu tlodi, o gofio mai cael gwaith gyda thâl yw'r ffordd orau o drechu tlodi ac o sicrhau bod y sawl sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod gymaint ag sy'n bosibl rhag tlodi. Nododd ei fod yn ymwybodol bod Tracey Burke wedi trefnu trafodaethau â'r Gweithgor Gweithredol ynghylch trechu tlodi, a bod hynny wedi golygu bod yr eitem ar yr agenda heddiw.

5.4 Gofynnodd y Prif Weinidog i'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg gyflwyno'r papur.

5.5 Diolchodd y Dirprwy Weinidog i'r Cyngor am y gwahoddiad i'r cyfarfod.

5.6 Rhoddodd y Dirprwy Weinidog wybod i'r aelodau am newid bach i'r papur, sef y dylai cyfeiriad at Becyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (*Wales Essential Skills Toolkit*) ar dudalen 2 ddarllen fel a ganlyn: 'launched on 1st October 2014', ac nid 2015.

5.7 Nododd y Dirprwy Weinidog fod cael economi gref a helpu pobl i gael gwaith yn elfennau hollbwysig o'n dull o drechu tlodi. Nododd fod y dystiolaeth yn dangos yn glir mai gwaith gyda thâl da yw'r ffordd orau o drechu tlodi ac o sicrhau bod y sawl sydd mewn perygl yn cael eu gwarchod gymaint ag sy'n bosibl rhag tlodi.

5.8 Atgoffodd y Dirprwy Weinidog aelodau'r Cyngor fod Datganiad Polisi ynghylch Sgiliau, a oedd yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer polisi cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru, wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2014. Nododd fod y Datganiad Polisi hwnnw'n atgyfnerthu nod Llywodraeth Cymru, sef cynorthwyo unigolion i wella eu sgiliau hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gael mynediad i gyfleoedd gwaith neu symud yn eu blaen pan fydd ganddynt waith.

5.9 Nododd y Dirprwy Weinidog ei bod am ddatblygu polisi cyflogadwyedd mwy manwl yn awr sy'n cyfuno camau gweithredu'n ymwneud â sgiliau hanfodol, cymorth o ran cyflogaeth a dysgu oedolion, a'i bod yn gobeithio cyflawni hynny erbyn diwedd 2015. Byddai'r polisi hwnnw'n cynnwys ffocws clir ar wella cyflogadwyedd oedolion yng Nghymru ac ysgogi mwy o ffocws ar sgiliau

hanfodol hyd at a chan gynnwys lefel 2 i'r sawl y mae ganddynt swydd a'r sawl nad oes ganddynt swydd.

5.10 Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at gyflwyniad a roddwyd i'r Bwrdd Sgiliau a Gyrfaoedd, a oedd yn nodi bod amcanestyniadau ynghylch galw'r farchnad lafur yn dangos y byddai'r angen am weithwyr di-grefft yn gostwng i'r nesaf peth i ddim erbyn 2025. Mae hynny'n ategu'r neges mai sgiliau addas fydd yr unig ffordd o gael gwaith a symud ymlaen mewn gwaith yn y dyfodol.

5.11 Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at y papur a oedd i'w nodi ynghylch yr ardoll arfaethedig ar brentisiaethau. Soniodd fod trafodaethau wedi'u cynnal â Thrysorlys Ei Mawrhydi a swyddogion Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU, ond nododd ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw wybodaeth bendant ar gael ynghylch y mater hwn cyn Datganiad yr Hydref.

5.12 Nododd y Dirprwy Weinidog y byddai'n croesawu barn a sylwadau aelodau'r Cyngor ynghylch y papur.

5.13 Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ei bod yn croesawu'r papur, a soniodd mai un o'r prif faterion a godir wrth gyfarfod â chyflogwyr a busnesau yw'r galw am y sgiliau cywir. Byddai byd busnes yn croesawu unrhyw gymorth y gellir ei roi ynghylch y mater hwn.

5.14 Nododd y Gweinidog fod buddsoddiadau diweddar wedi gweld bod galw am sgiliau lefel uwch. Soniodd ei bod yn bwysig sicrhau bod y sawl sydd â lefelau is o sgiliau'n gallu gwella eu sgiliau er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn. Awgrymodd y Gweinidog y byddai angen i brosiect peilot y Cymoedd ystyried lefelau sgiliau'n ofalus. Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus gyda phrentisiaethau ym Mlaenau'r Cymoedd.

5.15 Ychwanegodd fod busnesau o'r farn yn aml bod cymorth i ddatblygu sgiliau'n bwysicach na chymorth ariannol.

5.16 Nododd Martin Mansfield ei fod yn arbennig o hoff o'r map llwybrau. Nododd mai'r flaenoriaeth yw mynd i'r afael â thangyflogaeth a galluogi pobl sydd mewn swyddi lefel mynediad i symud yn eu blaen, a sicrhau bod y sawl nad ydynt mewn gwaith yn cael y swyddi lefel mynediad sy'n dod ar gael wrth i bobl eraill symud yn eu blaen.

5.17 Nododd fod cynllunio'r llwybr i gyflogadwyedd a dod o hyd i'r cymorth cywir yn bwysig. Honnodd mai ardoll ar hyfforddiant fyddai'r ffordd orau o wneud yn siŵr bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu. Nododd ei fod yn awyddus i weld sut y byddai cynigion Llywodraeth y DU yn effeithio ar y mater hwn, a sut y byddai hynny'n dylanwadu ar hyfforddiant yng Nghymru.

5.18 Roedd Martin Mansfield yn cytuno â phwynt Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, a nododd y dylid canolbwyntio ar sicrhau bod pobl sydd wedi ymddieithrio'n dod yn rhan o'r farchnad lafur, a sicrhau bod y sawl sydd mewn gwaith yn gallu symud yn eu blaen. Awgrymodd fod angen rhaglenni hyfforddiant sydd wedi'u teilwra.

5.19 Croesawodd Keith Palmer y ffocws ar sgiliau, gan nodi mai dyma oedd y rhwystr unigol pennaf i dwf ar gyfer aelodau Siambr Fasnach De Cymru. Nododd y byddai ganddo ddiddordeb mewn dysgu mwy am y model categoreiddio.

5.20 Ymatebodd y Dirprwy Weinidog drwy nodi bod y map llwybrau i gyflogaeth, sy'n debyg i fap o'r Tiwb, yn adnodd defnyddiol iawn sy'n symleiddio set gymhleth o raglenni. Nododd fod gweinyddiaethau eraill y DU wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru gan fod ganddynt ddiddordeb yn yr adnodd hwn. Nododd y byddai map rhyngweithiol o lwybrau i gyflogaeth ar gael hefyd, a fyddai'n gweithio ochr yn ochr â'r Porth Sgiliau.

5.21 Nododd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn ystyried rhaglen unedig a fydd uwchlaw ac islaw'r set hon o raglenni. Bydd y rhaglen honno'n dangos sut y mae'r llwybr yn arwain at sgiliau uwch, fel sy'n ofynnol gan rai cwmnïau, ond bydd hefyd yn nodi'r llwybr y gall pobl ei gymryd i gyrraedd y cam hwnnw. Bydd hynny'n hybu dewisiadau gwell, er enghraifft i bobl ifanc.

5.22 Nododd y Dirprwy Weinidog y bydd y Model Categoreiddio a Phecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru yn hybu proses bontio ddidrafferth o Raglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac y bydd yn darparu adnodd sy'n galluogi pobl i weld ble y maent ar y llwybr i gyflogadwyedd a sut y gallant symud yn eu blaen. Bydd hefyd yn sicrhau cyfatebiaeth well i Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop ac yn sicrhau bod gan Gymru y sgiliau cywir i hybu twf yn ei heconomi.

5.23 Croesawodd Robert Lloyd Griffiths y papur, a nododd fod sgiliau'n hollbwysig i economi Cymru. Holodd ynghylch effaith toriadau i'r gyllideb ar y gwaith o ddarparu cymorth o ran sgiliau, ac awgrymodd y gall Busnes Cymru chwarae rhan yn y gwaith o sicrhau ymwybyddiaeth well o'r maes hwn ymysg busnesau.

## 6. Crynhoi'r sefyllfa o ran yr economi

6.1 Cyflwynodd y Prif Weinidog yr eitem hon, gan nodi bod yr ystadegau cadarnhaol diweddar ar gyfer Cymru ynghylch y farchnad lafur yn dangos symudiad cyffredinol i'r cyfeiriad cywir. Nododd y byddai'r eitem ar agenda'r mis hwn yn canolbwyntio'n benodol ar allforion.

6.2 Amlinellodd y Prif Weinidog yr amodau economaidd diweddar ar lefel fyd-eang ac yn y DU, gan gynnwys yr arafu yn economi Tsieina a'r cynnydd yng ngwerth y bunt, yng nghyd-destun eu heffaith ar allforion.

6.3 Nododd y Prif Weinidog fod Cymru eisoes yn perfformio'n well na'r disgwyl o ran allforion, ond rhybuddiodd fod y papur yn cyfeirio at nifer o broblemau wrth ddehongli'r ffigurau.

6.4 Nododd y Prif Weinidog fod y papur yn darparu adroddiad ffeithiol am allforion ac nad yw'n ymdrin â pholisïau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru. Gofynnodd i Jonathan Price gyflwyno'r adroddiad.

6.5 Ailddatganodd Jonathan Price nad oedd y papur yn ymwneud â pholisïau a chamau gweithredu, ond awgrymodd y gallai hynny fod yn bwnc ar gyfer y dyfodol.

6.6 Nododd fod ffigurau diweddar ynghylch y farchnad lafur yn dangos bod Cymru yn perfformio'n dda. Fodd bynnag, rhybuddiodd y gall data misol am y farchnad lafur fod yn anwadal, ac y byddai felly'n ddoeth edrych drwy'r data misol a chanolbwyntio ar y tueddiadau sylfaenol.

6.7 Nododd Jonathan Price fod y bwlch rhwng Cymru a'r DU o safbwynt cyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch wedi lleihau ers datganoli, ac mai Cymru yw'r pedwerydd rhanbarth gorau o safbwynt perfformiad sy'n ymwneud â gwerth ychwanegol gros y pen, a'r ail ranbarth gorau o safbwynt perfformiad sy'n ymwneud ag incwm aelwydydd. Nododd nad oedd hynny'n golygu y gellir diystyru heriau economaidd yng Nghymru ac nad oedd yn golygu y gellid bod yn hunanfodlon; fel y mae papur TUC Cymru yn nodi, mae nifer o leoedd yn dal i ddioddef effeithiau dirwasgiad yr 1980au. Er hynny, ceir rhai arwyddion o gynnydd.

6.8 Nododd Jonathan Price fod tystiolaeth o arafu yn nhwf economi'r DU i'w gweld yn ddiweddar, a oedd efallai'n adlewyrchu'r arafu ar lefel fyd-eang. Mae twf yn y DU wedi gwanhau ar ôl twf eithaf cryf yn ystod y chwarteri blaenorol. Nododd fod adferiad yn ystod y dirwasgiad diweddaraf yn parhau'n wan o'i roi mewn cyd-destun hanesyddol – mae economi'r DU 15-18% yn is na'r man lle y byddai pe bai'r adferiad wedi dilyn cynseiliau hanesyddol.

6.9 Soniodd y byddai ganddo ddiddordeb mewn clywed barn yr aelodau am effeithiau'r arafu yn Tsieina.

6.10 Gan droi ei sylw at allforion, nododd Jonathan Price fod Cymru yn cyfrannu mwy na'i "chyfran deg" at gyfanswm allforion y DU, a oedd efallai'n adlewyrchu sylfaen gryfach o safbwynt gweithgynhyrchu. Rhybuddiodd y gall y data fod yn anwadal, a dywedodd y dylid ystyried tueddiadau tymor hwy yn hytrach na rhoi gormod o bwys ar symudiadau chwarterol.

6.11 Soniodd Jonathan Price nad oedd yr ystadegau allforio rhanbarthol yn ceisio mesur allforion neu fasnach y sector gwasanaethau â rhannau eraill o'r DU. Nododd nad yw'r data yn adlewyrchu'r gwerth a ychwanegir yng Nghymru, er enghraifft caiff gwerth olew a gaiff ei fewnforio i Gymru, ei storio yng Nghymru a'i allforio o Gymru ei seilio ar bris olew, ac nid ar y gwerth a ychwanegwyd yng Nghymru. Am y rhesymau hyn i gyd, rhaid cymryd gofal cyn dod i unrhyw gasgliadau.

6.12 Nododd Jonathan Price fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i archwilio sut y gellid creu darlun o lifau trawsffiniol ac allforion yn y sector gwasanaethau, er bod yr heriau ymarferol a'r costau sy'n gysylltiedig â hynny'n sylweddol.

6.13 Oherwydd y cyfyngiadau hyn yn yr ystadegau ynghylch allforio, dywedodd Jonathan Price fod ei bapur hefyd yn cynnwys cyniferyddion lleoliad ar gyfer

cyflogaeth, sy'n nodi ym mha sectorau y mae gan Gymru gryfder diwydiannol cymharol.

6.14 Diolchodd y Prif Weinidog i Jonathan Price, ac agorodd y drafodaeth ynghylch y papur er mwyn cynnwys pawb.

6.15 Nododd Keith Palmer fod canlyniadau cynnar arolwg economaidd chwarterol Siambr Fasnach De Cymru yn dangos bod gweithgarwch economaidd ychydig yn is na'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad ar gyfer y chwarter blaenorol. Nododd fod diddordeb a galw ond ei bod fel pe bai'n anos ennill busnes. Ar lefel anecdotaidd, mae'n ymddangos bod yr arafu yn Tsieina a'r arafu ehangach yn fyd-eang yn effeithio ar Gymru. Ychwanegodd fod allforion i fannau y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd wedi gostwng islaw lefelau 2014, a ddylai beri pryder, er eu bod yn uwch o hyd na lefelau 2013, ac nad yw'r data yn cynnwys prif farchnad yr Undeb Ewropeaidd.

6.16 Gofynnodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a oedd unrhyw beth arall y gellid ei wneud i gael data ynghylch gwasanaethau a gaiff eu masnachu'n fyd-eang ac ynghylch cydrannau a gaiff eu hymgorffori yn allforion y DU. Tynnodd sylw at Ganolfan Ddata Abertawe, a'r enghraifft lle'r oedd cydrannau a gynhyrchir gan gwmnïau moduro yng Nghymru yn cael eu hanfon i Birmingham i'w rhoi at ei gilydd cyn eu hallforio, ac na fyddai unrhyw ran o'r broses honno'n cael ei chofnodi fel allforion o Gymru. Nododd nad yw'r ystadegau presennol yn adlewyrchu ein heffaith nac yn rhoi darlun llawn o ddeinameg economi Cymru, a'u bod yn rhoi darlun anghyflawn o fasnach rhwng Cymru a gweddill y byd.

## 7 Papurau i'w nodi

7.1 Tynnodd y Prif Weinidog sylw'r Cyngor at y papurau a oedd i'w nodi ynghylch y canlynol:

- Y Bil Undebau Llafur
- Yr ardoll arfaethedig ar brentisiaethau
- Y diweddaraf am ddiwygio lles
- Adroddiadau diweddaru blynyddol ar weithredu'r Cynllun Busnes gan yr Adran Gyllid, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Addysg.

7.2 Gwahoddodd y Prif Weinidog sylwadau ynghylch y papurau.

7.3 Diolchodd Nick Ireland i'r Prif Weinidog am ei gymorth gyda'r Bil Undebau Llafur ac am y Datganiad Ysgrifenedig a gyflwynwyd yn ystod y toriad. Tynnodd sylw'r Cyngor at feysydd allweddol sy'n peri pryder yn y Bil, a oedd yn cynnwys y canlynol:

– Diffiniad arfaethedig Llywodraeth y DU o 'wasanaethau cyhoeddus pwysig', sy'n ehangach na'r diffiniad o 'wasanaethau hanfodol' mewn cyfraith ryngwladol;

- Dileu'r system ar gyfer casglu tanysgrifiadau undebau llafur o gyflogau gweithwyr [ar draws holl sefydliadau'r sector cyhoeddus];
- Y Swyddog Ardystio, sy'n rheoleiddio undebau, yn cael pwerau i ymchwilio i undebau a chael mynediad i restrau o aelodau. Gellir codi tâl ar undebau i dalu am gostau cynnal y Swyddog Ardystio;
- Cynnig a fydd yn galluogi'r heddlu i fonitro gweithgarwch undebau llafur ar gyfryngau cymdeithasol.

7.4 Honnodd nad oedd y Bil yn addas i'w ddiben yn gyffredinol ac y byddai cyflwyno'r Bil yn golygu bod cysylltiadau diwydiannol yn y DU yn gwaethygu.

7.5 Nododd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai wrthsefyll y Bil mewn gwasanaethau sydd wedi'u datganoli. Roedd yn amau honiad Llywodraeth y DU bod y Bil yn ymwneud â mater nad yw wedi'i ddatganoli, a chyfeiriodd at ddyfarniad y Goruchaf Lys ynglŷn â Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Nododd fod elfennau o'r Bil yn ymwneud â gwasanaethau a chyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli, ac y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gallu diddymu elfennau o'r Bil sy'n bygwth y modd y caiff y gwasanaethau hynny eu darparu.

7.6 Diolchodd y Prif Weinidog i'r aelodau am eu sylwadau.

## 8 Unrhyw fater arall

8.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fater arall. Ni chodwyd unrhyw fater arall.

8.2 Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 1 Chwefror 2016.

8.3 Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.